Cais i Ymaelodi

Cymdeithas Gwehyddwyr, Nyddwyr a Lliwyddion.

(defnyddiwch lythrennau bras os gwelwch yn dda)

Mr/ Miss/ Mrs

Enw Cyntaf .....

Cyfenw .....

Cyfeiriad .....

.....

.....

Côd Post .....

Rhif ffôn .....

E:bost .....

Tanysgrifiad Blwyddyn £15.00

Diddordeb mewn tecstiliau?

Dymunech fwy o wybodaeth? Beth am ymaelodi â Chymdeithas Gwehyddwyr Nyddwyr a Lliwyddion Clwyd.

Mae'n haelodau yn ymddiddori mewn gwehyddu, lliwio naturiol a synthetig, plethwaith, gweu, a chrefftau cyffelyb. Dewch i gyfarfod ag eraill sy'n rhannu'r un diddordeb â chi yn ein cyfarfodydd a'n gweithdai i rannu sgiliau a dysgu technegau newydd.

Beth yw bwriad y Gymdeithas?

Rydym am weld parhad i grefftau traddodiadol megis gwehyddu, nyddu a lliwio, a'u datblygu i'r oes sydd ohoni. Gwnawn hyn drwy arddangos ein sgiliau i'r cyhoedd, a thrwy gydgyfarfod i rannu syniadau a phrofiadau.

Lle a Phryd mae'r Gymdeithas yn cwrdd?

Cynhelir cyfarfodydd misol yng Ngholeg Llysfasi ar y trydydd dydd Sadwrn o bob mis. Rydym yn cychwyn am 10:00 gyda sgwrs a phaned. Bydd y cyfarfod yn cychwyn am 10:30. Ceir egwyl am ginio oddeutu 12:00 a daw'r cyfarfod i ben erbyn 4:00.

Ar y dydd Llun o bob mis rydym yn cyfarfod yn neuadd pentref Cilcain a Llanbedr lle rydym yn gwehyddu neu wneud crefftau o ddewis ein hunain. Mae croeso bob amser i ymwelwyr ac rydym yn hapus i helpu dechreuwyr i nyddu, efallai ar un o olwynion neu wŷddau'r Gymdeithas.

Llyfrgell.

Mae gan y Gymdeithas Lyfrgell. Mae croeso i aelodau logi llyfrau a chyfarpar am bris bychan.

Gwe Clwyd

Cylchlythyr y Gymdeithas yw Gwe Clwyd. Mae'n cynnwys manlion ar ddigwyddiadau sydd i ddod ag eitemau eraill o ddiddordeb. Gall aelodau'r Gymdeithas hysbysebu eitemau ar werth yn y cylchlythyr.

Gall aelodau sy'n dymuno gwerthu eitemau wneud hynny gan roi 10% tuag at goffrau'r Gymdeithas.

Cymdeithas Iau

Nid oes gennym Gymdeithas Iau yn bresennol ond mae croeso i bobl ifanc sy'n ymddiddori yn y maes ymuno â ni.

Sut ariennir y Gymdeithas?

Mae'r Gymdeithas yn elusen gofrestredig. Derbyniwn nawdd gan Gyngor Celfyddydau Cymru. Mae gweddill ein hincwm yn ddibynnol ar roddion a thâl aelodaeth. Trafodir ffioedd ymaelodi yn ein Cyfarfod Blynyddol. Mae aelodau sy'n cymryd rhan yn ein gweithdai yn talu cyfraniad i dalu ffioedd y tiwtor. Mae'r gweithdai'n agored i eraill a gofynnir iddynt hwy dalu hefyd.

Rhif Elusen Cofrestredig 518270

Gwybodaeth Bellach

Dewch i'n cyfarfodydd i siarad â'n haelodau.
Am fanylion pellach cysylltwch â:-

Helen Bendon	01978 351507	Wrecsam
Lynn Blanchard	01352 752719	Yr Wyddgrug
Chris Jordan	01606 47217	Cheshire

http://www.spindizzy.net/Clwyd

Anneli Thomas (Ysgrifennydd)
Graigwen Fach
Llansilin
Oswestry
SY10 9BN

Ffôn: 01691 791239
E:bost: anneli.thomas@btconnect.com



v. Cwm_grey_2007

CYMDEITHAS CLWYD
GWEHYDDWYR, NYDDWYR
A LLIWYDDION

Cefnogwyd gan grant "Celfyddydau i bawb" a dderbyniwyd gan Cyngor Celfyddydau Cymru.